

COD Y MODIWL: DSAW7078c
TEITL: Arwain Marchnata Digidol
DYDDIAD

LEFEL: 7
CREDYDAU: 30

COD JACS: N500

AMCAN(ION)

- Galluogi dysgwyr i adnabod a gwerthuso cysyniadau marchnata digidol a pherthnasu'r rhain i'r marchnata mewn amrywiaeth eang o weithleoedd.
- Galluogi dysgwyr i ddefnyddio sgiliau marchnata digidol.

CANLYNIADAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos gallu i wneud y canlynol:

- Diffinio a gwerthuso'n feirniadol rôl marchnata digidol yn y swyddogaeth farchnata;
- Dadansoddi'n feirniadol y gweithgareddau marchnata digidol mewn amrywiaeth eang o weithleoedd;
- Cynllunio a gweithredu strategaeth marchnata digidol a'i gwerthuso'n feirniadol ac adlewyrchu ar ei heffeithiolrwydd.

SYNIADAU AM GYNNWYS

- Trafod y cysyniad o farchnata digidol a diffinio'r dehongliadau amrywiol ohono;
- Gwerthuso rôl marchnata digidol fel rhan o'r gwahanol swyddogaethau mewn marchnata, gan ystyried goblygiadau moesegol a diogelwch;
- Astudio'r adnoddau a'r technegau sydd ar gael yn y ddarpariaeth marchnata digidol ar gyfer ystod o strategaethau;
- Dadansoddi pwysigrwydd dulliau cynllunio, gweithredu, mesur ac adolygu a'r datblygiadau presennol yn y diwydiant;
- Gwerthusiad o wahanol esiamplau sy'n dangos defnydd o farchnata digidol mewn amrywiaeth eang o sectorau.

STRATEGAETH DDYSGU AC ADDYSGU

Bydd y darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i gysyniadau, egwyddorion ac arferion. Bydd y tiwtorialau yn cyflwyno esiamplau ymarferol a ddefnyddir i gefnogi defnyddio a thrafod y technegau a ddysgwyd a'u gwerthuso'n feirniadol. Hefyd defnyddir astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth a defnydd o'r technegau.

Dyma'r dyraniad addysgu ar gyfer cyflwyno'r modiwl hwn:

Math o Weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i drefnu	30	10%
Dysgu annibynnol	90	30%
Dysgu ar leoliad – seiliedig ar waith	180	60%
CYFANSWM	300	100%

ASESIAD

Gwaith Cwrs: 100% - 8000 gair neu gyfatebol.

Portffolio sy'n cynnwys y canlynol:

Elfen Asesiad 1 – 30%

Aseiniad Ysgrifenedig (2400 gair neu gyfatebol).

Esiampl

Creu a chyfiawnhau ymgyrch marchnata digidol at bwrpas penodol gyda'r gweithle. Dylid defnyddio isafswm o bedwar cyfrwng digidol yn eich strategaeth.

Elfen Asesiad 2 – 30%

Portffolio ac Adroddiad (2400 gair neu gyfatebol).

Esiampl

Llunio portffolio o waith yn dangos sut mae eich strategaeth wedi cael ei rhoi ar waith yn ystod cyfnod penodol.

Elfen Asesiad 3 – 40%

Portffolio ac Adroddiad (3200 gair neu gyfatebol).

Esiampl

Adroddiad adlewyrchol yn gwerthuso'r strategaeth yn feirniadol ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydi'r modiwl yn cyfrannu at ADC?	Ydi
Os ydi, rhowch fanylion byr (dim mwy na 100 gair):	
O'r saith nod 'llesiant', fel y disgrifir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r modiwl hwn yn helpu i gyfrannu at ddau ohonynt: 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru sy'n fwy cyfartal'. Mae'n gwneud hyn drwy alluogi'r dysgwyr i ddeall marchnata digidol a'r defnydd ohono, a thrwy adael i ddysgwyr ddefnyddio marchnata digidol i dyfu ac ehangu mentrau lleol a chenedlaethol. Bydd y dysgwyr yn datblygu'r adnoddau sydd eu hangen i greu busnesau cystadleuol a ffyniannus yng Nghymru, i gystadlu ar lwyfan byd-eang.	